# Cynigion a Gwelliannau i’w Trafod ar 14 Mehefin 2005

## Cynigion a gyflwynwyd ar 11 Mai 2005

**NDM2453 Christine Chapman (Cwm Cynon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 31.2, yn cefnogi mewn egwyddor deddfwriaeth i:

Fynnu bod awdurdodau lleol, fel rhan o’u cyfrifoldebau rhianta corfforaethol, yn gwneud cyfraniad blynyddol i Gronfeydd Ymddiriedolaeth Plant y plant sydd dan eu gofal.

*Mae datganiad o’r pwerau cyfreithiol y gellid gwneud y ddeddfwriaeth arfaethedig oddi tanynt ac awgrym o’r goblygiadau o ran adnoddau a deunydd arall wrth weithredu’r cynnig fel a ganlyn:*

**Datganiad o bwerau cyfreithiol:**

Mae Adran 22 Deddf Plant 1989 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo lles y plant sydd yn eu gofal. Trosglwyddir y swyddogaethau o dan y Ddeddf honno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999.

**Goblygiadau o ran adnoddau:**

Amcangyfrifwyd bod awdurdodau lleol yn gofalu am uchafswm o 250 o blant o oedran cymhwyso ar hyn o bryd. Byddai’r ffigur hwnnw yn cynyddu, yn flynyddol hyd nes y byddai pob plentyn o dan 18 oed wedi’u cynnwys yng nghynllun y Gronfa Ymddiriedolaeth.

Os byddai Cronfa pob plentyn y mae’r awdurdodau lleol yn gofalu amdano yn cael ychwanegiad blynyddol o £50, yna £12,500 fyddai’r goblygiad o ran adnoddau ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru.

## Cynigion a gyflwynwyd ar 07 Mehefin 2005

**NDM2483 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24.25:

1.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 7 Mehefin 2005 ar fersiwn drafft y Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2005;

b) Yn cymeradwyo bod fersiwn drafft y Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2005 yn cael ei weithredu'n unol ag:
i) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mai 2005;

ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mai 2005;

2.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 7 Mehefin 2005 ar Reoliadau drafft Halogion Mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2005;

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau drafft Halogion Mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2005 yn cael eu gweithredu'n unol ag:
i) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mai 2005;

ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mai 2005;

3.

a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 7 Mehefin 2005 ar Reoliadau drafft y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2005;

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau drafft y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2005 yn cael eu gweithredu'n unol ag

i) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mai 2005;

ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mai 2005.

**Dadl y Blaid Leiafrifol**

**NDM2482**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
**Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn)**
**Janet Ryder (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 8.1:

1. Yn sefydlu pwyllgor i roi cyngor i'r Cynulliad ynghylch ariannu ysgolion. Teitl y pwyllgor fydd y Pwyllgor ar ariannu ysgolion. Bydd aelodaeth y pwyllgor yn cynnwys pum Aelod o'r

Cynulliad, dau o’r Blaid Lafur, ac un yr un o Blaid Cymru, y Blaid Geidwadol a Phlaid y Democratiaid Rhyddfrydol. Bydd y pwyllgor yn ethol ei gadeirydd ei hun.

2. Cylch gorchwyl y Pwyllgor ar ariannu ysgolion fydd:

i) Adolygu’r holl ffynonellau incwm (refeniw a chyfalaf), sut bynnag y’u crëir, sy’n darparu cyllid ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd a gynhelir (yn cynnwys unedau cyfeirio disgyblion)

ii) Adolygu’r broses o ddyrannu cyllid i ysgolion a gynhelir – yn rhai cynradd ac uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion.

iii) Ystyried effaith mentrau’r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraethau’r DU ar ariannu ysgolion.

iv) Cyflwyno argymhellion i’r Cynulliad Cenedlaethol ar symleiddio ac egluro’r system hon.

3. Rhaid i’r pwyllgor gyflwyno adroddiad i’r Cynulliad Cenedlaethol heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl dyddiad ei gyfarfod cyntaf.

4. Ni fydd y pwyllgor yn bodoli ar ôl 14eg Mehefin 2006.

*Gosodwyd yr asesiad a ganlyn o gost, buddiannau a goblygiadau eraill sefydlu'r pwyllgor gyda'r cynnig uchod:*

**Cost y Pwyllgor**

Bydd staff Gwasanaethau Seneddol y Cynulliad yn gwasanaethu’r Pwyllgor a thelir costau o gyllideb bresennol Gwasanaethau Seneddol y Cynulliad.

**Buddiannau’r Pwyllgor**

Sefydlu Pwyllgor ad hoc fyddai’r ffordd fwyaf ymarferol ymlaen o ran ystyried pob agwedd ar ariannu ysgolion yn llawn, a sicrhau bod pob ffynhonnell incwm a phob cyfyngiad ar gyllidebau ysgolion yn eglur ac yn dryloyw. Byddai pwyllgor ad hoc hefyd yn darparu fforwm trawsbynciol, a fyddai’n adlewyrchu natur y mater sydd o dan sylw yn briodol.

Byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn elwa ar gael cyngor sy’n seiliedig ar dystiolaeth o ran pa mor briodol fydd fformiwlâu ariannu ysgolion yn y dyfodol.

Bydd Awdurdodau Addysg Lleol yn croesawu’r cyfle i graffu ar y broses o greu system dryloyw o wariant addysg ac i gyfrannu’n llawn ati, a byddai ysgolion Cynradd ac Uwchradd a gynhelir hefyd yn elwa ar y cyfle i gyfrannu at ymagwedd gyfannol tuag at ariannu ysgolion.

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 08 Mehefin 2005

Cynnig bod y Cynulliad yn bwriadu mabwysiadu’r gwelliannau canlynol i’r cynigion:

**NDM2482 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu is-bwynt ar ddiwedd pwynt 2:

Ymchwilio i ymarferoldeb cyflwyno cynllun cyllido 3 blynedd ar gyfer ysgolion a’i adolygu.

**NNDM2453 Gwenda Thomas (Castell-nedd)**

Dileu 'fynnu bod’ a rhoi ‘annog a chynghori’ yn ei le a dileu 'yn gwneud' a rhoi 'i wneud' yn ei le. **TYNNWYD YN ÔL**